# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Datganiad o Bolisi Hapchwarae |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf) mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i weithredu fel Awdurdod Trwyddedu sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Eiddo, Rhybuddion, Hawlenni a Chofrestriadau hapchwarae yng Ngwynedd.

Mae gofyn i bob awdurdod trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad o bolisi hapchwarae bob tair blynedd.
Diben y datganiad yw amlinellu'r egwyddorion y bydd yr awdurdod trwyddedu yn eu rhoi ar waith wrth fynd i'r afael ai swyddogaeth trwyddedu wrth reoleiddio gweithgareddau trwyddedig hapchwarae yn unol â gofynion y Ddeddf. Wrth ymgymryd ai swyddogaethau o dan y Ddeddf, fydd yr awdurdod trwyddedu yn hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu sef -

- atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; ac
- amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gwenan Mai Roberts, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ( Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)
Adran Amgylchedd

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Cychwynnwyd ar yr adolygiad o'r polisi yn 2016. Hwn yw'r fersiwn terfynol sydd wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn mis Medi 2017, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus dros yr Haf.
Dyma y tro cyntaf mae'r broses o adolygu'r polisi wedi cael ei asesu o ran effaith posib ar faterion cydraddoldeb.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu a'r Cabinet
- Defnyddwyr a'r cyhoedd
- Y diwydiant Hapchwarae
- Y Comisiwn Hapchwarae
- Yr Heddlu

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Mae proses ymgysylltu ffurfiol wedi bod dros Mis Gorffennaf ac Awst , ac fe gyhoeddwyd y datganiad polisi drafft gan wahodd sylwadau gan y cyhoedd, y diwydiant ac unrhyw sefydliad perthnasol.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn ystod y broses ymgysylltu.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Nid oes tystiolaeth i ddangos fod y Datganiad o Bolisi Hapchwarae yn debygol o gael effaith ar unrhyw grwpiau a ddiogelir gan y Ddeddf. Dengys ystadegau Heddlu Gogledd Cymru nad oes tystiolaeth o drosedd ac anrhefn yng Ngwynedd a all gael ei gysylltu gyda cynnwys y polisi Hapchwarae presennol. Er bod y Ddeddf Hapchwarae wedi dod i rym yn 2005; mae canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar lunio ac adolygu polisi yn arwain Awdurdodau Trwyddedu i gymryd i ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb dinasyddion a all gael eu heffeithio gan arferion hapchwarae wrth benderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo ac yn y blaen. Mae nodweddion cydraddoldeb felly wedi derbyn ystyriaeth pan luniwyd y Datganiad o Bolisi Hapchwarae er mwyn cydymffurfio a'r Ddeddf yn wreiddiol; a bob tro mae'r Polisi wedi cael ei adolygu yn dilyn hynny.

Mae'r Ddeddf a'r polisi newydd yn disgwyl i weithredwyr trwyddedau hapchwarae wneud asesiad risg lleol i adnabod unrhyw sefydliadau sensitif cyfagos megis ysgolion, canolfannau oedolion bregus; ardaloedd preswyl gyda nifer fawr o blant.

Er mwyn hwyluso'r broses o ganiatáu i weithredwyr trwyddedau hapchwarae asesu'r risgiau o weithredu trwyddedau yn lleol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi creu proffil o ardal Gwynedd. Fe fydd y proffil ardal yn hwyluso'r gorchwyl o wneud asesiadau risg; ac yn helpu i sicrhau nad yw gweithgareddau hapchwarae yn effeithio yn negyddol ar unrhyw garfan o'r boblogaeth.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae diffyg tystiolaeth yn y maes i brofi os yw polisïau hapchwarae yn cael effaith mewn unrhyw ffordd ar y boblogaeth. Mae y Comisiwn Hapchwarae wedi cyhoeddi papur briffio sydd yn crynhoi y sefyllfa gyfredol o ran tystiolaeth o niwed sydd yn gysylltiedig a ymarferion hapchwarae*

**Gambling –related harm as a Public Health issue. Briefing paper for Local Authorities and Local Public Health prroviders (England and Wales) October 2017*

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Dim | Nid oes tystiolaeth bendant yn dangos fod effaith ar hil neu genedligrwydd – ond mae awgrym mewn papur diweddar gan y Comisiwn Hapchwarae* fod rai grwpiau ethnig yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed oherwydd effeithiau hapchwarae. |
| **Yr iaith Gymraeg** | dim | Nid oes tystiolaeth yn dangos fod y polisi hapchwarae neu weithgareddau hapchwarae yn effeithio ar yr iaith Gymraeg |
| **Anabledd** | Potensial o effaith bychan negyddol | Dengys ymchwil diweddar* fod rhai carfannau o unigolion bregus fod fwy tebygol o gael problemau gyda hapchwarae mewn rhai amgylchiadau. |
| **Rhyw** | Effaith negyddol bychan posib | Nid oes sail tystiolaeth pendant i gefnogi fod effaith hapchwarae yn gallu bod yn fwy negyddol i ddynion yn hytrach na merched – ond dengys gwaith gan y Comisiwn Hapchwarae* fod yna duedd i hapchwarae fod yn broblem ymysg dynion – lle mae ffactorau eraill yn cyfrannu at y tebygolrwydd o broblemau gyda gamblo – megis problemau iechyd meddwl neu dibyniaeth cyffuriau/alcohol |
| **Oedran** | Effaith negyddol bychan posib | Dengys ymchwil diweddar* fod pobl ifanc yn fwy tebygol o gael problemau yn sgil hapchwarae. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid oes tystiolaeth fod y polisi hapchwarae na gweithgareddau hapchwarae yn gallu cael effaith. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Mae'r polisi yn datgan fod angen i gwmnïau fod yn sensitif i arferion a chrefyddau pan yn dewis lleoliadau ar gyfer canolfannau hapchwarae |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid oes tystiolaeth fod y polisi hapchwarae na gweithgareddau hapchwarae yn gallu cael effaith. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Nid oes tystiolaeth fod y polisi hapchwarae na gweithgareddau hapchwarae yn gallu cael effaith. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Nid oes tystiolaeth fod y polisi hapchwarae na gweithgareddau hapchwarae yn gallu cael effaith. |

### 3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Dylid dileu'r rhai amherthnasol** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Dim yn berthnasol |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Dim yn berthnasol |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Dim yn berthnasol |

## 4) Dadansoddi’r canlyniadau

### 4.1 Ydi’r polisi felly’n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw’r rheswm am hyn?

Ni ragwelir y bydd y polisi yn cael effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb , neu’r ddyletswydd gyffredinol.

### 4.2 Ydi’r polisi felly’n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw’r rheswm am hyn?

Ni ragwelir y bydd y polisi yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb , nac ychwaith ar y dyletswydd gyffredinol .

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o’r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda’r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ia |
| Addasu’r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu’r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a’r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

### 4.4 Pa gamau fyddwch chi’n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sicrhau fod cwmnïau sydd yn gyfrifol am redeg busnesau hapchwarae yn yr ardal yn gweithredu ac yn dilyn yr egwyddorion a osodir yn y polisi ac yn cydymffurfio gyda’r Ddeddf.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ef fod tystiolaeth yn amlygu'r posibilrwydd o effeithiau negyddol bychain hapchwarae ar rai grwpiau cydraddoldeb nid y'w dystiolaeth yn ddigonol. Hefyd mae'n llawer gwell fod hapchwarae'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor ac mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i wneud hynny. |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae'n ofynnol i bob cwmni sydd yn gweithredu trwyddedau a hawlenni hapchwarae sydd yn dod o dan gyfrifoldeb Yr Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Gwynedd) gydymffurfio gyda'r Ddeddf , a hefyd dilyn egwyddorion a gweithredu yn unol â'r polisi hwn. Fe fydd y Cyngor a'r Comisiwn Hapchwarae yn sicrhau cydymffurfiad a'r Ddeddf , ac yn cymryd camau gorfodaeth os oes angen. |